

SMR 2: Adar Gwyllt



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagfyr 2014

www.cymru.gov.uk

Mae pob aderyn gwyllt, ei wyau a'i nythod yn cael eu gwarchod dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Mae'n drosedd lladd, anafu neu ddal unrhyw aderyn gwyllt yn fwriadol; mae hyn yn cynnwys niweidio nythod, neu fod ag wyau neu adar gwyllt byw neu farw yn eich meddiant. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n rhoi Trwyddedau Cyffredinol a Thrwyddedau Penodol er mwyn cyflawni gweithgareddau penodol mewn perthynas ag adar gwyllt.

Mae'r SMR hwn yn effeithio'n fwy uniongyrchol ar ffermwyr sydd â thir mewn Ardal Gwarchodaeth Arbennig sy'n cynnig lloches i adar gwyllt.

Y prif ofynion

- Peidiwch â lladd, anafu na dal unrhyw aderyn gwyllt yn fwriadol (oni bai bod gennych drwydded gyffredinol neu drwydded benodol i wneud hynny, neu ei fod ar Atodlen 2 ac nad yw'n gyfnod gwaharddedig).
- Peidiwch, yn fwriadol neu'n ddi-hid, â dinistrio nyth unrhyw aderyn gwyllt tra'i fod yn cael ei ddefnyddio neu wrth iddo gael ei adeiladu, nac amharu ar adar ifanc dibynnol (gan nodi'r mesurau ychwanegol i warchod adar prin Atodlen 1 a ZA1) oni bai'ch bod yn gwneud hynny dan drwydded gyffredinol neu drwydded benodol.
- Peidiwch, yn fwriadol neu'n ddi-hid, â dinistrio nyth yr Eryr Euraid, yr Eryr Môr na Gwalch y Pysgod (adar Atodlen ZA1) hyd yn oed os nad yw'r nyth yn cael ei defnyddio.
- Peidiwch â defnyddio dulliau graddfa fawr neu annethol o ddal neu ladd adar Atodlen 2, neu adar sydd ar drwydded gyffredinol. Mae'r dulliau hynny'n cynnwys maglau, trapiau, croglathau, bachau, dyfeisiau parlysu trydanol, gwenwyn a bwâu croes. Peidiwch â niweidio na dinistrio wyau unrhyw aderyn gwyllt yn fwriadol (oni bai'ch bod yn gwneud hynny o dan drwydded gyffredinol neu benodol).
- Ni ddylech fod ag unrhyw aderyn gwyllt, byw neu farw, neu ran ohono yn eich meddiant, gan gynnwys wyau (ac eithrio adar Atodlen 2 neu'r rhai sy'n dod o dan

drwydded gyffredinol fel nodir uchod. Cewch eu dal nhw dan amgylchiadau arbennig).

- Peidiwch â lladd na dal adar Atodlen 2 yn ystod y cyfnod gwaharddedig. Ni ddylid dal adar Atodlen 2 ar ddydd Sul mewn rhai siroedd yng Nghymru hyd yn oed y tu allan i'r cyfnod gwaharddedig.
- Ni ddylid lladd na dal ffesantod, petris, grugieir coch na grugieir du ar unrhyw ddydd Sul na dydd Nadolig.

Archwilio Caeau

- Gofalwch nad oes unrhyw waith adfer fel torri, plygu neu fondocio perthi yn cael ei wneud yn ystod y cyfnod gwaharddedig (gweler GAEC 7: Gwahardd torri/tocio yn ystod tymor bridio a magu adar – rhwng 1 Mawrth a 31 Awst).
- Edrychwch a oes arwydd neu achos o wenwyno neu o ddulliau annethol o ddal/lladd adar.
- Gofalwch nad yw tir yn cael ei losgi pan allai fod nythod arno.
- Cadarnhewch os yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n rhoi trwyddedau i ganiatáu i weithgareddau penodol ddigwydd, er enghraifft atal clefydau rhag lledaenu neu atal niwed difrifol i dda byw.

Arfer da

- Dylai hawlwyr â thir sydd wedi'i ddynodi fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a/neu dir sydd wedi'i ddynodi fel Ardal Cadwraeth Arbennig fod yn ymwybodol bod Gofyn Rheoli Statudol 3: Gwarchod Ffawna a Fflora hefyd yn berthnasol.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Cyfoeth Naturiol Cymru

Gweler y daflen 'Cysylltiadau Defnyddiol' yn y pecyn hwn

Trwyddedau Penodol

<http://naturalresourceswales.gov.uk/apply-and-buy/uk-protected-species-licensing/bird-licensing/?lang=cy>

Trwyddedau Cyffredinol

<http://naturalresourceswales.gov.uk/apply-and-buy/uk-protected-species-licensing/general-licences-birds/?lang=cy>